

Mae yna nifer o ffyrdd yr ydym yn cefnogi ac yn buddsoddi mewn treftadaeth. Cael gwybod mwy am rai o'n hymyriadau arfaethedig a sut y byddwn yn eu cyflawni.

Rydym am greu'r effaith a'r budd mwyaf i dreftadaeth y DU o'n hariannu.

Mae ein mentrau strategol yn ffordd i ni fynd i'r afael â materion treftadaeth hirsefydlog ar raddfa fawr, cefnogi dulliau cydgysylltiedig traws-tiriogaethol a rhoi syniadau ac arloesiadau newydd ar waith yn gyflym.

Dros oes ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033, rydym yn disgwyl cyflwyno amrywiaeth o fentrau. Mae'r rhai yr ydym yn gweithio arnynt ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Treftadleoedd: £200m i helpu 20 lleoedd ledled y DU i ffynnu
- Cysylltiadau Tirwedd: £150m ar gyfer cefn gwlad gwerthfawr y DU
- Addoldai: achub treftadaeth mewn angen a mynd i'r afael â heriau'r sector
- Trefi a Dinasoedd Natur: partneriaeth newydd a £15m o gyllid

Treftadaeth mewn angen a chyfleoedd ac argyfyngau eraill

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyblygrwydd ac ymateb yn gyflym pan fydd angen. Gallai hyn olygu cefnogi caffael treftadaeth eithriadol, nodi digwyddiadau arwyddocaol neu gefnogi meysydd o dreftadaeth a sefydliadau sy'n delio ag argyfwng nas rhagwelwyd.

Rydym hefyd yn ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer ariannu wedi'i dargedu ar gyfer treftadaeth sydd mewn perygl ac sydd angen cadwraeth. Ochr yn ochr ag ariannu prosiectau unigol, rydym am gefnogi sefydliadau i adeiladu gallu, datblygu dulliau cynllunio prosiectau ac amrywiaethu ffrydiau incwm.

Aeth y grant Treftadaeth mewn angen cyntaf i Archives Revealed, y bartneriaeth hirhoedlog rhwng yr Archifau Cenedlaethol, Ymddiriedolaeth Pilgrim a Sefydliad Wolfson. Mae ein buddsoddiad o £5 miliwn yn cefnogi'r prosiect i ddatgloi a chatalogio casgliadau archifol ledled y DU, gan eu gwneud yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

Gwneud penderfyniadau

Mae ein dull o wneud penderfyniadau ar fentrau strategol yr un fath â'n prosesau o dan raglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Ar gyfer grantiau o dan £250,000 mae penderfyniadau'n cael eu gwneud bob mis gan uwch staff buddsoddi neu ymgysylltu eich gwlad neu ardal. Ar gyfer grantiau dros £250,000, gwneir grantiau ar sail chwarterol gan bwyllgor eich gwlad neu ardal neu gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Efallai y byddwn yn amrywio ein proses gwneud penderfyniadau ar gyfer mentrau penodol, ond byddwn yn diweddaru ein gwefan pan fydd hyn yn digwydd.

Mwy i ddod

Mae ein timau'n gweithio'n galed i ddatblygu'r mentrau a'r cyfleoedd hyn a byddwn yn rhannu rhagor o fanylion pan fyddant ar gael.

Cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr i gael ein newyddion a chyhoeddiadau diweddaraf wedi'u danfon yn uniongyrchol i'ch mewnflwch.